Jainaba Conteh

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Dylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr oherwydd rwy'n dod â chymysgedd o arbenigedd technegol, profiad polisi ac ymrwymiad cryf i hyrwyddo amrywiaeth ac arloesedd. Mae fy nghefndir mewn Biocemeg Feddygol a Pheirianneg Gemegol, ynghyd â'm mhrofiad helaeth o ddadansoddi polisïau, rheoli prosiectau a chydweithio â rhanddeiliaid amrywiol, wedi fy ymbaratoi i gyfrannu'n effeithiol at genhadaeth CGGC.

Trwy gydol fy ngyrfa, rwyf wedi dangos gallu cyson i ddatrys problemau cymhleth, boed hynny mewn gwaith ymchwil academaidd, lle rwyf wedi datblygu datrysiadau cynaliadwy ar gyfer uwchgylchu plastigion, neu mewn gwaith polisi, lle rwyf wedi dylanwadu ar ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a threfnu fforymau effeithiol. Mae fy mhrofiad o weithio gyda chymunedau amrywiol, fel cynorthwyo teuluoedd ffoaduriaid Wcráin i gael tai a hyrwyddo amrywiaeth o fewn y sector amgylcheddol a gweithgareddau awyr agored yn amlygu fy ymroddiad i gyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb.

Rwy'n weithiwr proffesiynol ifanc sy'n frwd ynghylch creu newid positif, ac yn awyddus i ddod â phersbectifau ffres i fwrdd CGGC. Rwy'n ymroddedig i sicrhau bod y sector gwirfoddol yng Nghymru yn ffyniannus, yn gynhwysol, yn adlewyrchu'r cymunedau y mae'n ei wasanaethu ac yn hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru.